



## Anghybwysedd hormonau ar ôl anaf i'r ymennydd

### Cyflwyniad

Gall anaf i'r ymennydd achosi niwed i'r hypothalmws ac i'r chwarren bitwidol, strwythurau bach yng ngwaelod yr ymennydd sy'n gyfrifol am reoleiddio hormonau'r corff. Gall niwed i'r rhannau hyn arwain at ddiffyg neu ormoddedd yn rhyddhau un hormon neu ragor, sy'n amharu ar allu'r corff i gadw amgylchedd mewnol sefydlog (homeostasis). Os yw niwed i'r chwarren bitwidol yn arwain at gynhyrchu llai o hormonau, yr enw ar hynny yw hypobitwidedd.

### Cyflwyniad

Yn ystod y cyfnod cynnar ar ôl anaf i'r ymennydd effeithir yn ddifrifol ar lefelau hormonau y rhan fwyaf o bobl, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd diagnosis hypobitwidedd. Gall ddod i'r amlwg yn ddiweddarach wrth wella bod rhai symptomau wedi eu hachosi gan newidiadau yn yr hormonau ac mae rhai unedau adsefydlu yn gwneud profion am hyn wrth asesu'r cyflwr. Fodd bynnag, nid oes canllawiau clir ar waith ar hyn o bryd i asesu a thrin swyddogaeth y chwarren bitwidol ar ôl anaf i'r ymennydd ac mae angen rhagor o ymchwil i benderfynu ar faint y broblem.

Ceir llawer o effeithiau amrywiol o achos niweidio'r chwarren bitwidol a'r hypothalmws oherwydd bod modd effeithio ar nifer fawr iawn o hormonau. Mae rhai symptomau yn debyg i'r effeithiau mwy cyffredin o anaf i'r ymennydd a dyna pam mae modd tandiagnosisio'r broblem.

### Enghreifftiau o symptomau sy'n gorgyffwrdd:

- Iselder
- Anawsterau rhywiol, megis analluedd a newid i'r ysfa rywiol
- Newid yn yr hwyliau
- Blinder
- Cur pen
- Tarfu ar y golwg

### Mae symptomau eraill yn cynnwys:

- Gwendid yn y cyhyrau
- Llai o flew ar y corff
- Mislif afreolaidd / y mislif yn peidio
- Lleihad mewn ffrwythlondeb
- Magu pwysau
- Mwy sensitif i'r oerfel
- Rhwymedd



- Croen sych
- Golwg welw
- Pwysedd gwaed isel/ teimlo'n benysgafn
- Diabetes insipidus

Achosir pob symptom gan newid yn lefelau hormon penodol a gynhyrchir gan y chwarren bitwidol. Ceir llawer o achosion posibl i'r symptomau uchod, yn arbennig ar ôl anaf i'r ymennydd, felly bydd angen asesiad trylwyr cyn y gellir gwneud unrhyw ddiagnosis.

Os ydych yn amau eich bod chi neu berthynas yn dangos symptomau hypobitwidedd, neu unrhyw gyflwr arall yn ymwneud â'r hormonau, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu. Os yw ef yn teimlo bod hynny'n briodol, bydd yn gallu eich atgyfeirio i gael asesiad pellach gan arbenigwr yn y maes, megis endocrinolegydd. Gall yr arbenigwr gynnal amrywiaeth o brofion ar lefelau'r hormonau a gall eich atgyfeirio i gael sgan i chwilio am arwyddion o niwed i'r hypothalmws neu'r chwarren bitwidol.

Mae'n bwysig cofio na fydd symptomau o bosib yn amlwg nid ar unwaith. Mewn rhai achosion ni fydd y symptomau yn dod i'r amlwg am wythnosau, misoedd neu hyd yn oed am flynyddoedd wedyn. Peidiwch â diystyru'r posibilrwydd bod y problemau yn ganlyniad anaf i'r ymennydd oherwydd iddo ddigwydd flynyddoedd lawer yn ôl.

## Triniaeth

Yn y cyfnod cynnar, gall problemau hormonau achosi cyflwr o'r enw diabetes insipidus niwrogenig, a nodweddir gan syched gormodol a chynhyrchu gormod o wrin dyfrllyd. Mae hyn o ganlyniad i secretiad is hormon o'r enw vasopressin (hormon gwrthddiwretig) a gellir ei drin drwy gymryd desmopressin (hormon gwrthddiwretig sydd wedi'i weithgynhyrchu) ac adfer yr hylifau a gollwyd. Gan amlaf, bydd diabetes insipidus yn diflannu yn weddol gyflym, ond gall bara mewn rhai achosion prin, weithiau am byth a bydd angen therapi amnewid hormonau gydol oes.

Yn y cyfnod diweddarach, pan fydd hypobitwidedd wedi'i gadarnhau, gellir rhoi triniaeth. Gellir defnyddio therapi amnewid hormonau i adfer yr hormonau i'w lefelau normal. Dylai hyn helpu i reoli'r symptomau. Mae amrywiaeth o driniaethau ar gael, yn dibynnu ar yr hormonau penodol sy'n cael eu trin a natur a maint y symptomau.

Mae asesu a thrin hypobitwidedd ar ôl anaf i'r ymennydd yn broses gymhleth ac mae angen mwy o ymchwil i fuddion hirdymor posib therapi amnewid hormonau. Fel ag yn achos pob triniaeth arall, dylech drafod y manteision a'r anfanteision gyda'ch meddyg cyn gwneud unrhyw benderfyniadau



## Gwybodaeth ychwanegol

Ceir nifer o astudiaethau i hypobitwidedd yn dilyn anaf i'r ymennydd, ond hyd yn hyn nid yw maint y broblem yn hysbys. Ymddengys bod y cyflwr yn digwydd yn bennaf yn dilyn anaf difrifol i'r ymennydd. Fodd bynnag, mae rhai astudiaethau wedi dangos y gall y chwarren bitwïdol hefyd fod yn agored i anafiadau i'r pen sydd i bob golwg yn llai difrifol.

Dylech fod yn ymwybodol yn benodol y gall llawer o'r symptomau gael eu hachosi gan anaf i ran arall o'r ymennydd, ac os felly ni fydd triniaeth ar gyfer problem gyda'r chwarren bitwïdol yn effeithiol.